## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli, gyda newidiadau, Reoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2013.

Mae rheoliad 3 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant.

Mae rheoliad 4 yn gwneud yn ofynnol i gynllun gweithredu gael ei baratoi fel rhan o asesiad yr awdurdod lleol.

Mae rheoliad 5 yn cyflwyno'r Atodlen sy'n rhagnodi'r materion y mae rhaid eu cynnwys yn yr asesiad.

Mae rheoliadau 6 a 7 yn rhagnodi'r personau y gallai awdurdodau lleol ystyried ymgynghori â hwy a'r personau y mae rhaid iddynt ymgynghori â hwy wrth lunio'r asesiad.

Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi'r cyfle i'r personau y maent wedi ymgynghori â hwy gyflwyno sylwadau ar yr asesiad drafft cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Mae rheoliadau 10 a 11 yn ymdrin â'r gofyniad i gyhoeddi'r asesiad drafft.

Mae rheoliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol i Weinidogion Cymru.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2016.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.